YSGOL GYMRAEG CASTELL-NEDD

Pennaeth: Mr D.T.Jones B.Add.
Heol Woodland, Castell-nedd. SA11 3AL.
Ffôn: 01639 637701 **Ffacs:** 01639 639772
e-bost: yggcastellnedd@npted.org
yggctn.d.t.jones@npted.org
gwefan: www.yggcn.co.uk

Mai 18fed, 2010.

1. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd yn hael iawn at ein hapêl ar ran y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). Codwyd y swm anrhydeddus o £3,193.11.
2. Llongyfarchiadau i Mrs. Siân Moore (mam Oliver, Derbyn S/L) am gael ei hethol fel cynrychiolydd y rhieni ar Gorff Llywodraethu'r ysgol.
3. **Profodd tîm rygbi'r ysgol brynhawn llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth 10 bob ochr blynyddol Clwb Rygbi Glyn-nedd ar Ddydd Sadwrn. Coronwyd ein bechgyn ni yn Bencampwyr 2010, o flaen saith ysgol leol arall. Aelodau'r garfan oedd Hedd Williams, Leigh Gilbert, Ben Parker, Joseph Larmond, Rhys Williams, Ross Price, Iwan Shenton, Ben Lukes, Elliot Burdett, Tomos Morgan, Steffan Lupton a Morgan Pemberton.**
4. Gofynnwn yn garedig i chi wirio nad yw eich plentyn wedi dod â chardiau ac albwm 'Match Attacks', sy'n eiddo i blentyn arall, adref gyda nhw. Mae'r albwm a'r cynnwys wedi costio'n agos at £50, ac mae'r bachgen sy biau'r albwm yn awyddus iawn i'w gael yn ôl! ERS Y DIGWYDDIAD HWN, NI CHANIATEIR I UNRHYW BLENTYN DDOD Â'R FATH GARDIAU I'R YSGOL.
5. Ym mis Medi fe fyddwn yn croesawu athrawes newydd i'r ysgol, sef Miss Caryl Lister, myfyrwraig aeddfed yn ei blwyddyn olaf yn UWIC, Caerdydd. Yn ogystal, penodwyd Miss Lowri Daniels yn athrawes dros dro, yn absenoldeb Mrs Appleby (sydd ar gyfnod mamolaeth yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn).
6. **Rhai dyddiadau pwysig ar gyfer eich calendrau/dyddiaduron:**

   31.5.10 – 4.6.10 - Wythnos hanner tymor
   Dydd Llun, 21.6.10 Hyfforddiant Mewn Swydd : ysgol ar gau i blant
   Dydd Gwener 2.7.10 Hyfforddiant Mewn Swydd : ysgol ar gau i blant

   - Am fwy o fanylion am ddigwyddiadau a newyddion y tymor, ewch at ein gwefan www.yggcn.co.uk
7. Hoffwn eich atgoffa unwaith yn rhagor nad yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb dros blant sy'n cyrraedd yr ysgol cyn 8.40 y bore. Nid yw staff yr ysgol yn cychwyn eu dyletswyddau tan yr amser yma.
8. **Disgwylir i bob plentyn sy'n mynychu'r Clwb Brecwast fwyta brecwast! Nid Clwb Gofal Plant yw'r Clwb Brecwast!!**
9. Os ydych chi, fel teuluoedd ein hysgol, yn mwynhau defnyddio cyfleusterau godidog Parc y Gnoll, a fyddech cystal â phleidleisio ar y we, neu ddychwelyd y ffurflen bleidlais amgaeedig i'r ysgol. Diolch.

BUDDSODDWYR MEWN POBL INVESTORS IN PEOPLE UK

Neath Port Talbot County Borough Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Ysgol - Eco